# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016

Amser: 09.08 - 09.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3942

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Jessica England (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 297KB) Gweld fel HTML (72KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd Janet Finch-Saunders wedi anfon ei hymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ganlyniadau'r cynllun monitro traffig, yn ogystal â sylwadau'r deisebydd bryd hynny, cyn penderfynu a ddylid cymryd camau gweithredu pellach.

### 2.2 P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i ofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro (a) effeithiolrwydd y gwasanaethau a chefnogaeth i blant ag awtistiaeth a'u rhieni, a (b) y canlyniadau a gyflawnwyd gan y cyllid a ddarperir; ac
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot i ofyn am eu hymateb i'r profiadau penodol a grybwyllwyd gan y deisebydd.

### 2.3 P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn y Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y mater hwn a'r rheoliadau drafft syn deillio ohonynt; ac
- yn y cyfamser, ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn am ei barn am y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 2.4 P-05-725 Ehangu'r A470 o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton, i fod â thair lôn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r mater.

### 2.5 P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn am ragor o fanylion gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ynglŷn â'r cynlluniau i archwilio gwelliannau i'r trethi annomestig, a chael gwybod a fydd cyfle i'r deisebydd gyflwyno sylwadau ynglŷn â hyn.

### 2.6 P-05-727 Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am sylwadau gan y deisebydd; a
- gofyn am ragor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am y broses ar gyfer penderfynu lefelau cymhorthdal unigol ar gyfer 2017-18, a gofyn a fydd cyfle i'r deisebydd gyflwyno ei sylwadau ynglŷn â hyn.

### 2.7 P-05-728 Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf

Datganodd Mike Hedges y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae e'n adnabod y deisebwyr, ond nid oes ganddo gysylltiad â'r ddeiseb.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, yn dilyn cadarnhad yn y gyllideb ddrafft y bydd cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gynnal yn 2017-18, cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb gan y deisebydd cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r mater hwn.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb

Datganodd Mike Hedges y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi cwrdd â'r deisebwyr yn rhinwedd ei swydd fel yr Aelod Cynulliad dros etholaeth Dwyrain Abertawe.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y materion a godwyd yn y ddeiseb yn dilyn ei gyfarfod diweddar gyda'r deisebwyr.

### 3.2 P-05-707 Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae e'n adnabod y deisebydd.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am sylwadau gan y deisebydd ynglŷn â'r ymatebion manwl a gafwyd gan Lywodraeth Cymru; a
- gofyn am farn y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.3 P-04-683 Coed mewn Trefi

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i rannu'r ymateb a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r deisebydd ac i ofyn am ei farn cyn penderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd.

### 3.4 P-05-714 Cynnwys Gorsaf ar Gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o Unrhyw Gynnig ar Gyfer Metro Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn am ragor o fanylion ynglŷn â lleoliad posibl unrhyw orsaf newydd yng Ngabalfa, yn ogystal â sut a phryd y bydd cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd yn cael eu datblygu.

### 3.5 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ceisio cael copi o gasgliadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ofal iechyd yn ardal Ffestiniog er mwyn llywio rhagor o drafodaeth gan y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb hon; ac
- ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

### 3.6 P-04-621 Cadw'r Uned Famolaeth dan Arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd ar Agor

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd cyn penderfynu a ddylid cymryd camau gweithredu pellach.

### 3.7 Papur i'w nodi